CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYNGOR 21 MAWRTH 2017

Presennol
Ei theilyngdod Y Maer- Cyng Brenda Owen

Cynghorwyr
I C Thomas, W L Davies, W R Owen, W T Owen,H W Roberts, T Thomas,G Thomas ©, K Williams,G Thomas (p), C Williams, A Hopcyn, M Sarnacki

1. **Ymddiheuriadau**
Cyng A Bohana, Cyng E R Hughes, Cyng E Lovgreen, Cyng M Thomas

2. **Cyhoeddiadau'r Maer**
Codi'r fflag diwrnod y Gymanwlad
Agor y Siop gwarchod cathod ar Y Maes
Agor canolfan Samariaid newydd yn Parc Menai

3. **Datgan Buddiant Personol**

Dim

4. **Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc**). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

Cyhoeddiad parthed toiledau cyhoeddus

5. **Cofnodion**

I gadarnhau y cofnodion canlynol:-

i. Cyngor, 7 Mawrth 2017
Penderfynwyd
Derbyn fel rhai cywir (11 o blaid,2 ymatal)

6. Ceisiadau Cynllunio

I ystyried y ceisiadau cynllunio (***DIM Ceisiadau Cynllunio***)

7. **Cyfrifon**

I gymeradwyo y biliau i'w talu
Penderfynwyd
Derbyn a'u talu (unfrydol)

8. Dogfen Weithredol y Cyngor
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)

9. Drysau Agored
Eglurodd y clerc ein bod ni yn rhan or cynllun ers blynyddoedd a bod ymateb yn newid o flwyddyn i flwyddyn
Llynedd toedd y Cyngor ddim wedi derbyn manylion felly ddim yn rhan o'r cynllun ond roedd cyn dipyn o bobl wedi holi
Penderfynwyd
Agor am 2 fore Gwener yn ystod Mis Medi gan cydlynnu'r dyddiadau efo Cymdeithas Dinesig (unfrydol)

Cyrhaeddodd Cyng W R Owen am 18.08

10.Unllais Cymru

Pwyllgor Ardal - 22 Mawrth 2017
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)

11.Grŵp Ffocws -28 Mawrth 2017
Penderfynwyd
Clerc a'r Maer i fynychu (unfrydol)

12. Cyngor Iechyd Cymuned

Dementia – un peth syml
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)

13. Ymatebion i'r ymgynghoriad Cadernid ac Adnewyddiad
Penderfynwyd
Derbyn ymateb y grwp ymgynghorol (unfrydol)

14. Rhaglen seminar adfywio treftadaeth Iwerddon/ Cymru

- 29 Mawrth 2017
  atgoffa bod Angen cofrestru
  Penderfynwyd

Cyng A Hopcyn yn dymuno mynychu

15.Cyngor Gwynedd - Beth sy'n bwysig

Llyfryn ar y bwrdd
Penderfynwyd
Cynghorwyr i ymateb yn unigol (unfrydol)

16.Rhybudd o Gynnig Cyng. Cemlyn Williams
Pâr: Cyfarfodydd Cyngor
Cafwyd trafodaeth bod cyfarfodydd y Cyngor yn para llai nag awr yn rheolaidd a bod rhan helaeth or cynnwys yr ru'n fath
Oedd yr elfen cynllunio yn creu pryderon. Eglurodd y clerc nad oedd modd creu pwyllgor cynllunio tan y cyfarfod mis Mehefin
Rhesymeg mynd lawr i un cyfarfod y mis ydi i geisio cael cyfarfodydd mwy aml or is bwyllgorau a cael un cyfarfod hirach
Penderfynwyd
Treialu am 6 mis dim ond cael un cyfarfod y Mis ar y nos Fawrth cyntaf (11 o blaid ,2 ymatal)

17. Diwrnod y Lluoedd Arfog
Adroddiad ar lafar
Cafwyd adroddiad gan Cyng I C Thomas bod digwyddiadau eleni yn Caernarfon.
10fed Mehefin Criw o cyn filwyr gydag anafiadau yn mynd I ben Y Wyddfa
12fed Mehefin codi'r baner Lluoedd Arfog yn Cyngor Gwynedd
12fed tan 18fed arddangosfa Hedd Wyn yn Eglwys Santes Fair
17 Mehefin Diwrnod Lluoedd Arfog fydd yn cynnwys orymdaith o amgylch y Castell ,rasio Thundercats allan ar Y Fenai (hefyd ar y dydd Sul)
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)

18.Cwestiynau

Oes posib I pawb Anfon ei ffurflenni gwerthuso yn nol mewn?

Ydi pawb yn fodlon diffodd ei golau am awr rhwng 8.30 a 9.30 ?

19. Cyhoeddiad parthed toiledau cyhoeddus

Nodi fydd toiledau Allt y Castell wedi cau am wythnos yn cychwyn o heno

Gorffenodd y cyfarfod am 6.50

Arwyddwyd …….. Dyddiad ……..